## Gweddi am Genhadaeth Fyd-eang

O Dduw, Ein Tad a thad holl bobl y byd, plygwn ger dy fron i'th addoli yn ôl dy gyfarwyddyd.

'Mae'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,
gwrandewir llais y gwan;
wel cyfod bellach, f'enaid prudd,
anadla tua'r lan.'

A deuwn ar yr anturiaeth yn ein llesgedd ysbrydol gan wybod fod Croes Calfaria yn rhoddi i ni yr hyder.

'Myfi anturia' nawr ymlaen
heb alwad is y ne'
ond bod perffeithrwydd mawr y groes
yn ateb yn fy lle.'

Diolchwn felly am genhadaeth fyd-eang dy Eglwys ym mhob oes. A diolchwn fod Pren y Groes wedi mynd yn bren mawr iawn ac yn symbol o oruchafiaeth yr Efengyl ym mhob gwlad. Ein gweddi yw, prysured y dydd pan ddaw'r Groes nid yn symbol, ond yn drysor i'w drafod ac i gredu ynddo, ac y daw Crist y Groes yn frawd, yn Geidwad a Gwaredwr i fwy a mwy o drigolion y gwledydd.

Gwyddom, O Dduw, dy fod ti yn galw arnom i gydweithio er lles y gwledydd gydag arweinwyr ac aelodau crefyddau'r byd. Gwyddom, O Arglwydd, fod cydweithio yn magu adnabyddiaeth o'n gilydd, ac yn gymorth i'r trigolion sylweddoli neges heddwch a chydweithrediad. Cyflwynwn wahanol fudiadau cenhadol sy'n gweithio yn ein byd trwy anfon a chynnal partneriaid mewn cenhadaeth. Bendithia eu gwaith a'u gorchwylion. Edmygwn eu dewrder ym mhob amgylchiad, ac yn arbennig y rhai sy'n dy wasanaethu mor egnïol yng nghanol y trais a'r rhyfela sy'n blino ein byd. Cofiwn am y miloedd sy'n newynu; y rhai sydd ar ddarfod amdanynt; y rhai a flinir gan ddoluriau a thrafferthion; a'r rhai sy'n dibynnu cymaint ar fudiadau fel Cymorth Cristnogol i leddfu ac adfer y sefyllfa. Dywedwn:

'Calfaria fryn yw'r unig sail
adeilaf arno mwy,
a gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod
mewn dwyfol farwol glwy'.'

Yn ei Enw. Amen.